# ATODLENNI

## ATODLEN 2

Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan gynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad perthnasol

## RHAN 4

### Cyfrif y Pleidleisiau a Datgan y Canlyniad mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

**Y cyfrif: papurau pleidleisio a wrthodwyd**

**60.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (4), mae'r papurau pleidleisio a ganlyn yn ddi-rym ac ni chaniateir eu cyfrif—

(a) papur pleidleisio nad oes arno farc swyddogol;

(b) papur pleidleisio y rhoddwyd pleidleisiau arno dros fwy o ymgeiswyr nag y mae gan y pleidleisiwr hawl i bleidleisio drostynt;

(c) papur pleidleisio y mae unrhyw beth wedi ei ysgrifennu neu wedi ei farcio arno y gellir adnabod y pleidleisiwr drwyddo ac eithrio'r rhif printiedig a'r marc adnabod unigryw arall ar y cefn;

(d) papur pleidleisio sydd heb ei farcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd.

(2) Pan fo gan y pleidleisiwr hawl i bleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd, nid yw papur pleidleisio i'w drin fel pe bai'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd o ran unrhyw bleidlais nad oes ansicrwydd yn codi yn ei chylch a rhaid cyfrif y bleidlais honno.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys i bapur pleidleisio y marciwyd pleidlais arno—

(a) mewn man heblaw'r man priodol,

(b) heblaw drwy gyfrwng croes, neu

(c) drwy fwy nag un marc.

(4) Nid yw'r papur pleidleisio i'w drin fel pe bai'n ddi-rym (naill ai'n gyfan gwbl neu o ran y bleidlais honno), oherwydd y modd y mae'r bleidlais wedi ei marcio yn unig—

(a) os yw'n glir o'r papur pleidleisio fod y pleidleisiwr yn bwriadu pleidleisio dros un neu'r llall o'r ymgeiswyr,

(b) os nad yw'r modd y mae'r papur pleidleisio wedi ei farcio ynddo'i hun yn adnabod y pleidleisiwr, ac

(c) os yw'r swyddog canlyniadau wedi ei fodloni na ellir adnabod y pleidleisiwr o'r papur pleidleisio.

(5) Rhaid i'r swyddog canlyniadau—

(a) arnodi'r gair "gwrthodwyd" ar unrhyw bapur pleidleisio nad yw, yn unol â'r rheol hon, i'w gyfrif;

(b) arnodi'r geiriau "gwrthodwyd yn rhannol" ar unrhyw bapur pleidleisio y cyfrifir pleidlais arno yn unol â pharagraff (2) a nodi pa bleidlais neu bleidleisiau a gyfrifwyd.

(6) Os bydd asiant cyfrif prif ardal yn gwrthwynebu penderfyniad y swyddog canlyniadau, rhaid i'r swyddog canlyniadau ychwanegu'r geiriau "gwrthwynebwyd y gwrthodiad" at yr arnodiad.

(7) Rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi datganiad yn dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd a'r nifer a wrthodwyd yn rhannol.

(8) Rhaid i'r datganiad nodi'r nifer a wrthodwyd neu a wrthodwyd yn rhannol o dan bob un o'r penawdau yn is-baragraffau (a) i (d) o baragraff (1).